

Llwybrau'r Fro Dau:

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
Rhondda Cynon Taf



2019-2029



RHONDDA CYNON TAF



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
1. Cyflwyniad	2
2. Llwybrau'r Fro: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf Rhondda Cynon Taf	3
2.1 Cefndir	3
2.2 Gwerthuso	3
2.3 Amcanion	3
3. Crynodeb o'r Asesiad	5
3.1 Cyflwr presennol	5
3.2 Angen y Cyhoedd yn y dyfodol	5
3.3 Teithio llesol	6
3.4 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Lles	6
3.5 Casgliadau	6
4. Cefndir i'r Datganiad Gweithredu	7
4.1 Nodau a blaenoriaethau o'r Asesiad	7
4.2 Ymrwymadau strategol hirdymor:	8
4.2.1 Datblygu Cynaliadwy a Nodau Lles Cymru	8
4.2.2 Cynllun Lles Cwm Taf	8
4.2.3 Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru	11
4.2.4 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf	11
4.2.5 Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol	11
4.2.6 Teithio Llesol yn Rhondda Cynon Taf	12
4.2.7 Tasglu'r Cymoedd / Parc Tirlun y Cymoedd	12
4.2.8 Cynllun Corfforaethol: Economi, Pobl a Lle	12
4.2.9 Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun drafft	12
4.3 Diben a chynnwys cynlluniau cyflawni	13
4.4 Y Broses Newid Polisi	13
5. Datganiad Gweithredu	14
Cyflwyniad	14
• Amcan Un: Iechyd, adfywio, twristiaeth a hamdden	14
• Amcan Dau: Cerdded a beicio fel opsiynau trafndiaeth	15
• Amcan Tri: Diogelu'r adnodd mynediad	16
• Amcan Pedwar: Gwella Darpariaeth	17
• Amcan Pump: Cynnwys sefydliadau cymunedol a gwirfoddol	18
• Amcan Chwech: System Rheoli	19
6. Cynlluniau Cyflawni	20
7. Monitro, Adrodd a Chynllunio'r Adolygiad	20
Atodiad Un: Amserlen a Rhestr Ymgynghori	21
Atodiad Dau: Newidiadau sylweddol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf	24
Atodiad Tri: Map o'r ardal sy'n cael ei chynnwys yn y Cynllun	25





Crynodeb Gweithredol

Dyma ail fersiwn o 'Llwybrau'r Fro: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf'.

Mae'r cyflwyniad yn nodi'r cefndir cyfreithiol ar gyfer paratoi'r Cynllun ac yn disgrifio'r ardal sydd dan sylw. Mae adran dau yn nodi cefndir cryno o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, yn ogystal â chrynodeb o'r gwerthusiad o'r cynllun hwnnw.

Mae adran tri yn cynnwys crynodeb o'r Asesiad a gafodd ei gynnal yn 2017 er mwyn llywio'r gwaith o adolygu'r cynllun. Mae'r Asesiad yn ystyried cyflwr presennol y cyfleoedd o ran mynediad, anghenion y cyhoedd yn y dyfodol, teithio llesol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y Cynllun Lles a chanlyniadau'r Asesiad: yn bennaf er mwyn llunio Cynllun diwygiedig.

Mae adran pedwar yn nodi cefndir y Datganiad Gweithredu. Caiff nodau a blaenoriaethau'r Asesiad eu disgrifio a chaiff yr ymrwymadau strategol hirdymor eu nodi. Caiff yr ymgynghoriad ar y Cynllun drafft, a'r newidiadau sy'n dilyn yr ymgynghoriad, eu crynhoi. Caiff pwrpas a chynnwys cynlluniau datblygu eu hegluro a chaiff y broses newid polisi arfaethedig ei hegluro.

Mae adran pump yn cynnwys y Datganiad Gweithredu. Yn wahanol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, does dim manylion ynglŷn â'r camau gweithredu. Yn hytrach, caiff themâu allweddol ar gyfer gweithredu eu nodi o dan bob un o'r chwe amcan. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

- Hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ar gyfer iechyd, adfywio, twristiaeth a hamdden
- Cerdded a beicio fel opsiynau trafnidiaeth
- Diogelu'r adnodd mynediad
- Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, pobl sy'n marchogaeth, cerbydau oddi ar y ffordd a defnyddwyr sydd ag anableddau o ran symud neu synhwyro
- Cynnwys y gymuned leol a sefydliadau gwirfoddol yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd, eu hybu a sicrhau mynediad iddyn nhw
- Datblygu system rheoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy, gan gynnwys y Map Diffiniol

Mae adran Chwech yn egluro sut mae modd defnyddio Cynlluniau Cyflawni i roi'r Datganiad Gweithredu ar waith.

Mae adran saith yn ystyried gwaith monitro, adrodd a chynllunio'r adolygiad.



1. Cyflwyniad

Roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol lunio Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer eu hardaloedd nhw. Yn Rhondda Cynon Taf, cafodd y cynllun yma ei alw yn 'Llwybrau'r Fro', ac roedd yn cynnwys manylion ynghylch tir mynediad agored, Safleoedd Allweddol yn y Cefn Gwlad, parciau a chaniatâd mynediad yn ogystal â hawliau tramwy cyhoeddus. Cafodd y cynllun yma ei gyhoeddi yn 2007/8.

Nododd y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 y dylai cynlluniau gael eu hasesu a'u hystyried o fewn 10 mlynedd o'u dyddiad cyhoeddi. Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ynglŷn ag adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yng Nghymru, ac mae hyn wedi llywio'r broses o ran asesu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf.

Mae'r Adolygiad yn ymdrin â'r un ardal â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, sef Rhondda Cynon Taf, ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. (Gweler y map yn Atodiad Tri.) Mae'r Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnal adolygiad o'i gynllun blaenorol. Mae RhCT yn cymryd rôl weithredol wrth ddatblygu'r Cynllun yma.

2. Llwybrau'r Fro: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf Rhondda Cynon Taf

2.1 Cefndir

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn seiliedig ar asesiad o'r adnodd mynediad, i ba raddau y mae'n diwallu anghenion presennol y cyhoedd a'i anghenion yn y dyfodol a'r cyfleoedd sydd wedi'u darparu mewn perthynas ag ymarfer corff, gweithgareddau hamdden awyr agored a mwynhad. Darparodd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf gynllun strategol, dull o wneud cais am adnoddau a sail ar gyfer datblygu rhaglenni gwaith. Roedd e'n cynnwys 75 o gamau gweithredu sy'n ymwneud â chwe amcan penodol.

Cymerodd y gwaith o ddatblygu'r cynllun nifer o flynyddoedd, ac roedd e'n cynnwys nifer o gamau. Roedd pob un o'r camau yma yn cynnwys ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a'r cyhoedd (problemau, asesu, y cynllun drafft a'r cynllun terfynol). Unwaith i'r Cyngor fabwysiadu'r cynllun, cafodd y gwaith o roi'r Cynllun ar waith ei fonitro drwy gyfarfodydd chwarterol. Cafodd adroddiad crynodeb blynyddol ei gyflwyno i'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r gwaith monitro'n parhau.

2.2 Gwerthuso

Cafodd gwerthusiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf ei gyflawni yn rhan o'r asesiad oedd yn penderfynu a ddylai'r Cynllun gael ei Adolygu ai peidio. Cafodd hwn ei gwblhau yn 2017 ac roedd e'n defnyddio'r wybodaeth fonitro chwarterol i ystyried y cynnydd dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Roedd y gwerthusiad yn ystyried y camau gweithredu manwl yn ogystal â'r cwrmpas ehangach o waith a gafodd ei gyflawni o dan y chwe amcan. Cafodd y rhain eu cyhoeddi fel atodiadau (2 a 3) i'r Asesiad (2017). Mae crynodeb wedi'i chynnwys yma.

Camau gweithredu unigol

Cafodd y rhain eu categorio fel camau gweithredu oedd naill ai wedi'u cwblhau, yn cael eu cwblhau, wedi'u haddasu, ddim wedi gwneud cynnydd neu'n rhai sydd ddim yn berthnasol mwyach. Yn 2017, allan o'r 75 cam gweithredu roedd:

- 27 (36%) wedi'u cwblhau,
- 30 (40%) yn cael eu cwblhau,
- 6 (8%) wedi'u haddasu,
- 2 (2.8%) ddim wedi gwneud cynnydd, a
- 10 (13.3%) ddim yn berthnasol mwyach.

Mae'r 2 gam gweithredu sydd ddim wedi gwneud cynnydd yn ymwneud â 'Ffyrdd Coll' ac ailagor Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar goetir Llywodraeth Cymru. Cafodd y camau gweithredu eu haddasu am fod amgylchiadau, sefydliadau, ffyrddau cyllido neu ddeddfwriaeth wedi arwain at ddull gweithredu gwahanol. Dydy rhai camau gweithredu ddim yn berthnasol mwyach, er enghraifft, pan fo'r prif sefydliad wedi cau neu ddim wedi parhau â'r prosiect neu pan dydy'r rôl a gafodd ei rhagweld ddim wedi'i datblygu.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiad o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn 2013. Yn genedlaethol, ar y cam gwerthuso hanner ffordd; roedd 74% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau, wedi'u cwblhau yn rhannol neu wrthi'n cael eu cwblhau neu'n rheolaidd a doedd 24% ddim yn berthnasol mwyach.



2.3 Amcanion

Nododd y gwerthusiad bod yr amcanion wedi dal prawf amser yn well na'r camau gweithredu unigol. Yn gyffredinol, mae'r blaenoriaethau a gafodd eu nodi yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn parhau i adlewyrchu pryderon cyfredol ac maen nhw, i ryw raddau, wedi rhagweld deddfwriaeth a chanllawiau newydd.

Amcan Un: Hybu gweithgareddau cefn gwlad ar gyfer iechyd, adfywio, twristiaeth a hamdden - dyma oedd y dull o sicrhau bod Llwybrau'r Fro yn adlewyrchu pryderon ehangach yr Awdurdod Lleol a bod camau gweithredu'n cael eu cydlynu. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad y bydd hyn yn parhau i fod yn fater pwysig, yn arbennig yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gweler isod).

Amcan Dau: Cerdded a beicio fel opsiynau trafnidiaeth - cafodd yr amcan yma ei bennu cyn y ddeddfwriaeth Teithio Llesol. Serch hynny, roedd yn ganolbwynt ar gyfer pryderon perthnasol o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad o ran trafnidiaeth.

Amcan Tri: Diogelu'r adnodd mynediad a

Amcan Pedwar: Gwella'r ddarpariaeth - dyma brif ganolbwynt y gwaith hawliau tramwy statudol sy'n debygol o barhau i fod yn faterion pwysig i'w hystyried yn y dyfodol.

Amcan Pump: Mae cynnwys cymunedau lleol a sefydliadau gwirfoddol wedi bod yn elfen hanfodol o weithredu'r cynllun. Mae'r ffordd yma o weithio yn nodwedd allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'n adlewyrchu'r egwyddorion mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r pryderon a gafodd eu codi gan y cyhoedd yn rhan o Asesiad Lles Cwm Taf (2016) (gweler isod). Yn olaf

Amcan Chwech: System reoli - roedd hon yn rhan ganolog o wella'r adnoddau a'r dull gweithredu mewn perthynas â hawliau tramwy a phroblemau mynediad.

3. Crynodeb o'r Asesiad (2017)

Yn ogystal â gwerthuso'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, nododd y canllawiau nifer o broblemau eraill y dylai'r asesiad eu hystyried. Mae crynodeb o'r canfyddiadau i'w gweld yma.

3.1 Cyflwr presennol

Roedd digonedd o gyfleoedd mynediad yn Rhondda Cynon Taf a dydy hyn ddim wedi newid rhyw lawer dros 10 mlynedd. Mae'r boblogaeth yn y de wedi cynyddu rhywfaint, ac mae cynnydd bach wedi bod mewn tir mynediad agored a Safleoedd Cefn Gwlad Allweddol sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd (megis Cefn yr Hendy a llwybr cymuned Pentre'r Eglwys). Cafodd dadansoddiad fesul ward ei ychwanegu (4) at yr Asesiad (2017).

Mae Dangosydd Cyflawniad Llywodraeth Cymru ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus, a gafodd ei gasglu rhwng 2000/1 a 2013/14 yn dangos cynnydd cyson yn y canran 'hawdd ei ddefnyddio' ar gyfer Rhondda Cynon Taf o 21.1% yn y flwyddyn gyntaf i 78.79% yn y flwyddyn olaf.

Mae'r System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad wedi cael ei defnyddio i reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy ers 2011. I ddechrau, cafodd arolwg o'r holl lwybrau ei gynnal, a chafodd lluniau, amodau, cyfyngiadau a phroblemau eu cofnodi ar y system. Mae 2576 eitem o ddodrefn ar y rhwydwaith, gan gynnwys pontydd, clwydi, camfâu a grisiau. Roedd yr Asesiad yn ystyried y mathau o broblemau sydd wedi'u cofnodi ar y System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad a pha mor gyflym y maen nhw'n cael eu datrys. Problemau llystyfiant yw'r problemau mwyaf cyffredin, wedi'u dilyn gan faterion sy'n ymwneud â dodrefn. Mae rhagor o broblemau'n cael eu datrys bob blwyddyn, ond mae llwyth gwaith sylweddol o hyd.

Yn ogystal â hynny cafodd amodau'r dogfennau Hawliau Tramwy Cyhoeddus cyfreithiol eu hasesu, yn ogystal â'r gwaith o asesu map diffiniol 1971 mewn perthynas ag ardal Taf-Elái dan sylw. Yn ogystal â hynny cafodd yr angen i ddiweddar mapiau diffiniol Cwm Cynon (1995) a Chwm Rhondda (1992) ei nodi hefyd. Cafodd Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol eu hadolygu. Roedd 44 o geisiadau ar y Gofrestr, mae 8 wedi'u penderfynu ac rydyn ni'n ymchwilio i 2 gais arall.

3.2 Anghenion y cyhoedd yn y dyfodol

Roedd yr asesiad o angen cyhoeddus yn y dyfodol yn seiliedig ar ganfyddiadau Asesiad Lles Cwm Taf (2016), Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2008 a 2011, rhywfaint o ganlyniadau Arolwg Cymru 2016 a'r tueddiadau cyffredinol sydd wedi'u nodi yn adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru 2017. Yn ogystal â hynny, ystyriodd y Fforwm Mynediad Lleol angen cyhoeddus yn y dyfodol. Caiff problemau o ran Symudedd a Chydraddoldeb eu trafod, ac hefyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 2015 ynhylich gwella cyfleoedd mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol

Y themâu allweddol oedd i'w gweld oedd bod y boblogaeth yn tueddu i eistedd llawer mwy yn gyffredinol, ac yn llai heini nag oedden nhw 10 mlynedd yn ôl. Dim ond nifer fach o bobl sy'n cyflawni gweithgareddau 'traddodiadol' megis cerdded ar hyd brynau a marchogaeth. Mae twf wedi bod yn nifer y bobl sy'n gweld golygfeydd, mynd ar deithiau cerdded byr, mynd â chŵn am dro a gweithgareddau mwy corfforol fel beicio/beicio mynydd a rhedeg i ryw raddau. Mae dealltwriaeth dda o bwysigrwydd yr awyr agored mewn perthynas ag iechyd corfforol a meddyliol da ac er lles datblygiad plant. Roedd yr Asesiad Lles yn canolbwyntio'n gryf ar y buddion iechyd a chymdeithasol sydd ynghlwm â'r awyr agored, ynghyd â hybu twristiaeth yn seiliedig ar amgylchedd naturiol hardd sydd â chyfleoedd mynediad gwych. Roedd cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd, rheoli mannau gwyrdd a gwella eu hiechyd eu hunain, yn ogystal â'u cynorthwyo nhw i wneud hynny, yn thema allweddol hefyd. Mae angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar leiafrifoedd, nid yn unig yn y meysydd traddodiadol, ond hefyd mewn perthynas â phobl anabl neu'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sydd ddim â char.

3.3 Teithio llesol

Disgrifiodd yr asesiad y camau a gafodd eu cymryd gan y Cyngor o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae cydberthynas waith agos rhwng y gwasanaeth Teithio Llesol a staff y gwasanaeth Cefn Gwlad, ac mae system ar waith sy'n sicrhau bod modd i'r holl staff weithio ar y cyd ar draws yr awdurdod. Mae rhagor o fanylion am hyn yn adran 4.2 isod.

3.4 Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Lles

Cafodd Cynllun Lles Cwm Taf ei lunio o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cynllun wrthi'n cael ei lunio gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n ymdrin ag ardaloedd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gasgliad o gyrff cyhoeddus sy'n cydweithio er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal Cwm Taf, ac sy'n ymweld â hi. Cafodd ymgynghoriadau helaeth eu cynnal â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn rhan o'r Asesiad Lles yn 2015/16. Llywiodd yr wybodaeth yma'r asesiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cafodd amcanion drafft y Cynllun Lles eu cyhoeddi yn ystod tymor yr hydref 2017, a chafodd y Cynllun Lles terfynol ei gyhoeddi yn 2018.

3.5 Casgliadau

Diben yr asesiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy oedd penderfynu a oedd angen adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod angen adolygu'r cynllun, yn bennaf am fod y cefndir deddfwriaethol wedi newid yn sylweddol ers llunio'r Cynllun cyntaf. Mewn adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ym mis Rhagfyr 2017

PENDERFYNWYD:-

1. Bod angen cynnal adolygiad ffurfiol o Lwybrau'r Fro: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf; a
2. Bydd y Pwyllgor Craffu - Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yn craffu ar yr adolygiad o 'Lwybrau'r Fro': Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf ymlaen llaw mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn rhoi adborth i'r Cabinet.

4. Cefndir i'r Datganiad Gweithredu

4.1 Nodau a blaenoriaethau sy'n deillio o'r asesiad

Nododd yr asesiad bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn darparu fframwaith defnyddiol er mwyn pennu, blaenoriaethu a monitro camau gweithredu ledled y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr amcanion wedi dal prawf amser ac roedd llawer o'r camau gweithredu'n gyfredol, tra bod eraill wedi'u cwblhau, wedi'u haddasu neu ddim yn berthnasol bellach am fod yr amgylchiadau wedi newid. Ychydig iawn o gamau gweithredu sydd ddim wedi gwneud unrhyw fath o gynnydd. Cafodd yr amcanion eu hystyried er mwyn darparu fframwaith diwygiedig ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac roedden nhw'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r newidiadau deddfwriaethol sydd wedi'u hamlygu yn y canllawiau.

Nododd yr Asesiad gyfraniad yr ardal awyr agored newydd sydd wedi'i chreu yn rhan o ddatblygiadau tai newydd, a hynny drwy gytundebau cynllunio S106. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ardal ddeheuol y fwrdeistref sirol, lle mae'r boblogaeth wedi cynyddu ers y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf.

Mae'r defnydd o'r System Rheoli Mynediad Cefn Gwlad wedi gwella'r gwaith o gofnodi, monitro a rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy yn sylweddol. Mae'r system yn cynnig rhagor o le i wella ond ar hyn o bryd, mae diffyg adnoddau (cyllid ac amser staff) yn atal hyn rhag digwydd.

Mae'r cynnydd o ran gwaith ymarferol ar lawr gwlad hefyd wedi wynebu cyfyngiadau o ganlyniad i doriadau i'r gyllideb yn sgil cyni. Mae nifer y carfanau o geidwaid a'r gyllideb ar gyfer contractwyr wedi'u gostwng. Yn ogystal â hynny, mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cwympo gan fod dim digon o amser gan y ceidwaid i gydlynu a monitro eu gwaith, a'u helpu nhw. Er gwaethaf hyn, mae'r ganran o'r rhwydwaith hawliau tramwy sy'n "hawdd ei defnyddio" wedi gwella yn raddol, er bod llwyth gwaith sylweddol o hyd o ran gwaith ymarferol.

Rydyn ni'n dechrau ar y gwaith gweinyddol a chyfreithiol o ddiweddarau'r Map Diffiniol a'r Datganiad, gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae cwblhau ardal Taf-Elái (dyddiad perthnasol 01/01/1971) yn flaenoriaeth, ac mae angen rhagor o waith i ddiweddarau Cwm Cynon (15/12/1995) a Chwm Rhondda (11/11/1992).

Nododd yr asesiad o angen cyhoeddus yn y dyfodol nifer o themâu allweddol sy'n berthnasol o ran y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig.

- Mae Teithio Llesol, hynny yw cerdded a beicio er mwyn cyrraedd rhywle yn hytrach nag fel gweithgaredd hamdden, bellach yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth. Mae sicrhau cydweithrediad agos â charfan Charfan Cynllunio Trafnidiaeth Strategol y Cyngor (sy'n ymdrin â'r ddeddfwriaeth teithio llesol) a sicrhau bod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cyfleu polisi'r Cyngor mewn perthynas â Theithio Llesol yn fater pwysig. Mae'r ddeddfwriaeth teithio llesol ond yn berthnasol mewn ardal adeiledig. Yn Rhondda Cynon Taf, bydd y cysylltiadau rhwng aneddeleoedd ac i mewn i aneddeleoedd o'r ardaloedd cefn gwlad cyfagos yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer teithiau sydd â diben penodol.
- Mae gwella iechyd y cyhoedd drwy ddefnyddio'r awyr agored yn fater polisi difrifol ar lefel cenedlaethol a lleol. Caiff gweithgareddau awyr agored eu hystyried yn ffyrdd o ddatrys problemau sy'n ymwneud â'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n ordew a phroblemau iechyd meddwl. Yn gyffredinol, mae'r boblogaeth yn fwy llonydd ac yn llai heini nag oedd hi 10 mlynedd yn ôl.
- Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r mathau o weithgareddau awyr agored y mae pobl yn cymryd rhan ynddyn nhw yn newid. Mae gweithgareddau 'traddodiadol' megis cerdded ar hyd bryniau a marchogaeth yn bryder lleiafrifol, er eu bod nhw'n boblogaidd. Mae twf wedi bod yn nifer y bobl sy'n gweld golygfeydd, mynd ar deithiau cerdded byr, mynd â chŵn am dro a gweithgareddau mwy corfforol fel beicio/beicio mynydd a rhedeg i ryw raddau.





- Mae plant yn cael llai o brofiadau yn yr awyr agored, a hynny gartref a gyda'u cyfoedion yn yr ysgol. Mae hyn yn arwain at golli gwybodaeth am gefn gwlad, yn ogystal â cholli'r sgiliau sydd eu hangen i archwilio cefn gwlad a'i fwynhau. Mae'r ffordd y mae pobl yn gweld risgiau wedi newid, ac mae hyn yn golygu bod llai o ryddid yn yr awyr agored a llai o weithgareddau heriol i bobl ifainc.
- Mae twristiaeth sy'n seiliedig ar amgylchedd naturiol hardd sydd â chyfleoedd mynediad gwych yn parhau i fod yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol.
- Mae cynnwys a chefnogi pobl mewn perthynas â phob agwedd ar yr awyr agored yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae hyn yn ymwneud â llawer mwy na gwirfoddoli. Mae rhai pobl leol yn awyddus i gymryd rhan mewn datblygu cyfleoedd mynediad, meithrin sgiliau cefn gwlad a'u rhannu, rheoli ardaloedd gwyrdd lleol, darganfod hanes lleol a bywyd gwyllt a gwella eu hiechyd eu hunain ac ati.
- Mae angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar leiafrifoedd, nid yn unig yn y meysydd traddodiadol, ond hefyd mewn perthynas â phobl anabl neu'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig, siaradwyr Cymraeg a'r rheiny sydd ddim â char.

4.2 Ymrwymïadau strategol hirdymor

4.2.1 Datblygu Cynaliadwy a Nodau Lles Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus (gan gynnwys awdurdodau lleol) i ddatblygu'n gynaliadwy. Caiff hyn ei ddiffinio fel a ganlyn:

Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a rhoi'r pum dull canlynol o weithio ar waith.

- Hirdymor: Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal: Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Ymgorffori: Ystyried sut y gall nodau lles corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion ac ar amcanion y cyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio: Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Ymglymiad: Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal mae'r corff hwnnw'n ei gwasanaethu.

Dyma'r Nodau Llesiant ar gyfer Cymru:

Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

4.2.2 Cynllun Lles Cwm Taf

Cafodd Cynllun Lles Cwm Taf ei lunio gan y Bwrdd Iechyd Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Cafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2018 ac mae'n cynnwys 3 amcan. Mae gan yr holl amcanion gamau y dylech chi eu cymryd ar unwaith, yn y tymor byr/canolig ac yn y tymor hir. Edrychwch ar Y Cynllun trosodd. Mae'r Cynllun yn cyfeirio'n gyson at ba mor werthfawr yw'r amgylchedd lleol i bobl, pa mor bwysig yw'r awyr agored mewn perthynas ag iechyd a lles, cyfleoedd o ran twristiaeth ac ar gyfer bod yn rhan o reoli a gwella'r amgylchedd lleol. Mae'r rhain yn trawstorri'r amcanion sy'n ymwneud â chymunedau sy'n ffynnu, 'pobl iach' ac 'economi cryf'.

Mae'r cynigion penodol yn cynnwys

- Defnyddio cryfder y gymuned i gefnogi gwirfoddolwyr
- Parthau cymunedol
- Helpu grwpiau lleol i fabwysiadu mannau gwyrdd a datblygu gweithgareddau creadigol
- Ymarfer corff rheolaidd a defnyddio 'rhagnodi cymdeithasol'
- Integreiddio gweithgareddau awyr agored yn ein bywydau beunyddiol: cerdded milltir bob dydd, dysgu yn yr awyr agored mewn ysgolion
- Cynllunio i fynd i gerdded, beicio a sicrhau mynediad i'r awyr agored fel bod modd i bobl o bob oed fwynhau eu hamgylchedd lleol
- Rhwydweithiau beicio a beicio mynydd, llwybrau cerdded ym mhob cymuned
- Marchnata'r Cymoedd a chefnogi Parc Tirweddau'r Cymoedd
- Manteisio i'r eithaf ar y cynigion mewn perthynas â'r Metro
- Isadeiledd gwyrdd
- Diogelu Cefn Gwlad



Y Cynllun ar Dudalen: Amcanion a Chamau Lles Cwm Taf

Amcan Trawsbynciol: Canolradd	MYND I'R AFAEL AG UNIGRWYDD AC UNIGEDD		
	Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddoli, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd ac unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer ohonynt.		
AMCANION	CYMUNEDAU SY'N LLEWYRCHU	POBL IACH	ECONOMI GREF
	1 Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.	2 I helpu pobl i fywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.	3 I dyfu economi leol gref gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sydd yn denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.
CAMAU: Canolradd (12 flynedd)	1.1 Datblygu Parthau Cymunedol fel ardal neu le sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth i wella canlyniadau ar gyfer ein hardaloedd â'r heriau mwyaf.	2.1 Gweithio gyda'n cymunedau i sicrhau bod gan bawb y cyfle gorau i fyw bywydau hir a hapus e.e. Y 1000 o ddyddiau cyntaf, gweithio gyda phobl hŷn i gadw'n heini ac yn iach cyhyd â phosib.	3.1 Ysgogi a hybu dyheadau a sgiliau ein pobl i gwrdd â'r cyfleoedd gyfra yn y sectorau cyhoeddus a preifat.
CAMAU: Tymor Byr i Ganolig	1.2 Gweithio gyda'n cymunedau i ddarparu negeseuon cyson, dolenni a cyfeirio at gefnogaeth gymunedol, sector cyhoeddus a busnes o fewn ac yn agos at gymunedau.	2.2 Gyda'n gilydd, hyrwyddo'n ffyrdd mwy iachus o fyw drwy annog "Un Mwy Ymddygiad Iach" ar gyfer ein holl staff a dinasyddion.	3.2 Tyfu a hyrwyddo twristiaeth gan ddefnyddio asedau ein amgylchedd naturiol hardd, ein treftadaeth a'n diwylliant ar gyfer iechyd, ffyniant a budd y gymuned gyfan ochr yn ochr â datblygiad Parc Tirwedd y Cymoedd.
CAMAU: Tymor Byr i Ganolig	1.3 1.3 Gweithio gydag a rhoi cymorth i gymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu amgylchedd lleol.	2.3 Cydweithio fel gwasanaethau cyhoeddus a gyda'n cymunedau i leihau lefelau gordewdra.	3.3 I wneud y mwyaf o'r buddsoddi a cyfleoedd dychwelyd o'r £1.229 biliwn o'r Fargen Ddinas yn lleol o fewn Cwm Taf.
CAMAU: Tymor Byr i Ganolig			3.4 Archwilio cyfleoedd ar gyfer tai cynaliadwy a datblygu ynni adnewyddadwy ymhellach gyda cronfeydd cymunedol cysylltiedig.
GWELEDI- GAETH: TYMOR HIR	- Gwirfoddolwyr Cymuned wedi'i chydlyn'u'n dda gyda gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau sy'n PPG hysbys a ffyniannus. - Amgylchedd diogel, iach y mae pobl yn ei ddefnyddio, gwerthfawrogi a mwynhau. - Y cymunedau'n siapio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr. - Dealltwriaeth well o'n hasedau naturiol a sut mae ein gweithredoedd yn effeithio arnynt.	- Lleihau bregusrwydd ein poblogaeth sy'n heneiddio drwy wella cyfraddau'r poblogaeth sydd â 4 neu 5 o ymddygiadau iach i 20%. - Gwella cyfraddau disgwyliad oes iachus a disgwyliad bywyd yng Nghwm Taf i gyrraedd y cyfartaledd gwladol Cymreig. - Mae pobl o bob oed yn treulio amser yn yr awyrgored, gan ddefnyddio a mwynhau eu hamgylchedd lleol i wella eu hiechyd a'u lles.	- Annog cyfleoedd datblygu ac adfywio fel mae'r Fargen Ddinas yn darparu swyddi ac yn dychwelyd ar ei fuddsoddiadau, gan gynnwys denu gwestai. - Cefnogi datblygiad economi glân. - Economi gynaliadwy, egniol ac yn ehangu gyda chyfraddau cyflogaeth sy'n cyfateb i Gyfartaledd y DU. - Diwydiant twristiaeth fywiog gan ddenu pobl o agos ac o bell, yn mwynhau ein hamgylchedd naturiol, ein hanes a'n diwylliant.

4.2.3 Datganiad Ardal ar gyfer Canol De Cymru

Mae gofyn i sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru lunio Datganiadau Ardaloedd, o dan ddarpariaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, er mwyn rhoi'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu ym Mholisi Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) ar waith, sef:

- Darparu atebion sy'n deillio o fyd natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; a
- Rhoi dull gweithredu ar waith sy'n seiliedig ar y lleoliad

Mae saith ardal ledled Cymru wedi'u nodi, ac mae Rhondda Cynon Taf yn dod o dan ardal Canolbarth y De, ynghyd â Chaerdydd, y Fro, Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Bydd y gwaith o ymgysylltu â phartneriaid ynglŷn â data a phroblemau sy'n llywio'r datganiadau yn cychwyn yn ystod gwanwyn 2018, ac mae'n debyg y caiff Datganiadau Ardaloedd eu cwblhau yn 2019.

4.2.4 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf

Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2011. Mae'r Cynllun yn fframwaith ar gyfer defnydd tir sy'n ffurfio sail i benderfyniadau ynghylch datblygiadau i'r Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol. Mae polisi AW7 yn cynnwys diogelu hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau beicio a mannau agored. Mae polisiâu NSA 23 a SSA 21 yn rhestru'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer y rhwydweithiau beicio, sydd hefyd wedi'u nodi ar y map cynigion. Mae'r polisiâu dylunio a chreu lleoedd, sef AW5 ac AW6, yn hybu opsiynau trafndiaeth cynaliadwy, ac mae rhai datblygiadau wedi cynnwys isadeiledd newydd neu well ar gyfer cerdded a beicio yn eu cynigion. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn destun gwaith monitro parhaus, sy'n llywio'r Cynllun Monitro Blyneddol. Mae'r Cyngor yn ystyried canlyniadau'r Adroddiadau Monitro Blyneddol yn rhan o'r weithdrefn adolygu ffurfiol.

Mae newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth gynllunio (gan gynnwys Deddf Gynllunio (Cymru) 2015) wedi rhoi cyfle i awdurdodau mewn sawl rhanbarth yng Nghymru lunio Cynlluniau Datblygu Strategol. Yn ogystal â hynny, mae Cynllun Datblygu Strategol wrthi'n cael ei drafod ar gyfer De-ddwyrain Cymru. Bydd e'n canolbwyntio ar Gaerdydd a 9 awdurdod arall, gan gynnwys y Cymoedd. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddarparu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd neu Gynlluniau Datblygu Lleol 'Ysgafn' ar raddfeydd llai unwaith fydd y Cynllun Datblygu Strategol (neu rai camau ohono) wedi'i lunio a'i gytuno. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i weithio ar elfennau o Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol 'Ysgafn' gydag Awdurdodau Lleol eraill, neu hyd yn oed lunio'r rhain ar y cyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno Asesiadau Isadeiledd Gwyrdd (Drafft PPW10). Mae'n bosibl y bydd y rhain yn darparu cyfleoedd pellach i integreiddio mannau agored, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a theithio llesol.

4.2.5 Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol

Caiff y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ei baratoi gan awdurdodau'r Prifffyrdd o dan ddarpariaethau Deddf Trafnidiaeth 2000, yn unol ag addasiadau Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, ac yn aml yn gweithio mewn partneriaeth ar draws ardal ehangach. Mae cysylltiadau cryf rhwng y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn Rhondda Cynon Taf. Roedd y Strategaeth Cerdded a Beicio Rhanbarthol yn un o nodweddion Cynllun Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, a llwyddodd i sicrhau cyllid Ewropeaidd sylweddol ar gyfer datblygu a gwella llwybrau beidio/llwybrau cymunedol. Dydy Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, a gyhoeddodd y Strategaeth Cerdded a Beicio Rhanbarthol, ddim yn bodoli mwyach. Cafodd y ddogfen yma ei disodli gan nifer o Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol ar gyfer De-ddwyrain Cymru. Yn fwy diweddar, cafodd Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol ei sefydlu ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn bwrw ymlaen â'r buddsoddiadau o ran trafndiaeth sydd ynghlwm â'r Fargen Ddinesig. Bydd y rhain yn cynnwys rhaglenni a phrosiectau arfaethedig sydd â'r nod o wella cysylltiadau ledled y rhanbarth ac annog rhagor o bobl i beidio â defnyddio ceir. Mae hyn yn cynnwys y cynigion ar gyfer y rhwydwaith Metro.



Cafodd ei Strategaeth gyntaf ei chyhoeddi ar ddechrau 2018 er mwyn cynnal ymgynghoriadau. Mae hi'n cynnwys nifer o gynigion ar gyfer gorsafoedd a rheilffyrdd newydd, cynlluniau parcio a theithio, cyfnewidfa bws/trên, gwelliannau i'r coridor bysiau a chynigion ar gyfer ffyrdd yn Rhondda Cynon Taf. Mae modd gweld y Cynllun Trafnidiaeth Lleol, ynghyd â nifer o bolisiau a dogfennau strategol eraill yma:

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/TransportSchemesandPolicies/TransportSchemesandPolicies.aspx> (neu drwy chwilio ar wefan y Cyngor).

4.2.6 Teithio Llesol yn Rhondda Cynon Taf

Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw annog pobl i gerdded a beicio wrth fynd ar deithiau byr bob dydd. I ddechrau, roedd gofyn i'r Cyngor lunio map o'r rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio sy'n bodoli eisoes mewn ardaloedd adeiledig, a'u harchwilio nhw yn erbyn safonau ansawdd Teithio Llesol (Y Map a'r Datganiad o Lwybrau sy'n Bodoli Eisoes 2015). Yr ail gam oedd llunio Map Rhwydweithiau Integredig sy'n cynnwys cynigion ar gyfer datblygu llwybrau dros 5,10 a 15 mlynedd (2016). Cafodd hyn ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2018 gan Lywodraeth Cymru. Roedd y ddau gam yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd y canlyniadau wedi llywio'r cynigion terfynol a'r rhaglen waith wedi'i chynllunio. Mae modd gweld y cynigion ar-lein yma: <https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/ActiveTravelandCycling.aspx> (neu drwy chwilio ar wefan y Cyngor).

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynigion sydd wedi'u cymeradwyo.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynigion sydd wedi'u cymeradwyo.

4.2.7 Tasglu'r Cymoedd / Parc Tirlun y Cymoedd

Cafodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ei sefydlu er mwyn datblygu dull gweithredu a gwella ffyniant yng Nghymoedd y De. Cafodd y cynllun lefel uchel 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ei gyhoeddi yn 2017. O dan ei thema 'fy nghymuned': erbyn 2021, mae'n cynnig creu Parc Tirwedd y Cymoedd a fydd yn helpu cymunedau i ddathlu a manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol a threftadaeth.

4.2.8 Cynllun Corfforaethol: Economi, Pobl a Lle

Yn 2016, lansiodd y Cyngor ei flaenoriaethau corfforaethol hyd at 2020, a hynny dan y teitl 'Y Ffordd Ymlaen'. Yn 2017, cafodd y Cynllun ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer yr economi, y bobl a'r ardal.

4.2.9 Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Cynllun drafft

Cafodd y Cynllun drafft ei gyhoeddi am gyfnod ymgynghori deuddeg wythnos yn ystod Haf 2018. Roedd arolwg ar gael ar-lein ac ar ffurf papur, ac roedd staff y Cyngor ac aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau anffurfiol. Cafwyd rhai ymatebion ysgrifenedig, ar lafar a thrwy e-bost. Cafodd y drafft ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Cyngor ym mis Medi.

Cafodd cyfanswm o 335 o holiaduron eu llenwi. Cafodd adroddiad manwl (200 o dudalennau) a thaenlen ddata gysylltiedig eu llunio. Mae'r rhain yn cofnodi'r holl sylwadau a'r camau gweithredu neu newidiadau cysylltiedig. Mae crynodeb ar gael hefyd.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi dull cyffredinol y Cynllun a'r chwe amcan. Fodd bynnag, mae nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r sylwadau, gan gynnwys rhai newidiadau i destun y Cynllun, a rhai newidiadau i'r themâu blaenoriaethol dan bob amcan. Cafodd nifer o awgrymiadau eu gwneud mewn perthynas â phob Amcan. Mae'r rhain wedi cael eu casglu a'u nodi mewn 'rhestr o syniadau'. Bydd y rhestr yma'n cael ei defnyddio i lywio'r rhaglen waith a fydd yn cael ei nodi yn y Cynllun Cyflawni blyneddol. Mae nifer o'r rheiny sydd wedi ymateb hefyd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo ag amryw o elfennau'r Cynllun. Mae hyn yn adnodd aruthrol a byddwn ni'n cysylltu â'r rheiny a gyflwynodd sylwadau er mwyn trafod eu diddordebau.

Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf

4.3 Diben a chynnwys cynlluniau cyflawni

Cafodd y cysyniad ynglŷn â Chynlluniau Cyflawni ei gyflwyno gan y canllawiau a gafodd eu llunio gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Dydy'r rhain ddim wedi'u cynnwys yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus 2000, ac felly, dydyn nhw ddim yn statudol. Mae'r canllawiau yn awgrymu y dylai'r Datganiad Gweithredu, sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy statudol, dim ond cynnwys camau gweithredu sy'n ddigon hirdymor a strategol. Nod hyn yw sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn berthnasol yn ystod y 10 mlynedd pan fo'r cynllun yn weithredol. Maen nhw'n awgrymu y dylai ymrwymadau a chynlluniau gwaith tymor llai gael eu cynnwys yn y Cynlluniau Cyflawni, ac y dylai'r rhain gael eu cynnwys mewn atodiad i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

Yn ogystal â hynny, mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn annhebygol o ystyried cynnwys y Cynlluniau Cyflawni yn 'ddarpariaethau materol' o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, ac maen nhw'n awgrymu y dylai cynnwys a gaiff ei ystyried yn y cyd-destun yma gael ei gynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy craidd yn hytrach na'r Cynlluniau Cyflawni.

Y bwriad yw llunio cynllun cyflawni blynyddol cryno er mwyn gwireddu'r Datganiad Gweithredu sydd wedi'i amlinellu yn adran 5 isod.

4.4 Y Broses Newid Polisi

Doedd y Cynllun Llwybrau'r Fro gwreiddiol ddim yn mynd i'r afael ag unrhyw bolisi neu newidiadau polisi penodol. Serch hynny, mae'r pwysau ar adnoddau sy'n deillio o gyni a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygu'r cynllun yn awgrymu y dylai fframwaith polisi mwy cynhwysol gael ei lunio ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Yn Hydref 2011, mabwysiadodd y Cyngor Ganllawiau Polisi ar gyfer penderfynu ar geisiadau dan Adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981, er mwyn cynnig rhesymwaith clir mewn perthynas â blaenoriaethu gwaith ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, er gwaethaf yr adnoddau prin a'r galw cynyddol am yr adnoddau hynny.

Mae'r rhestr ganlynol wedi'i chynnig ar gyfer datblygu polisiâu a chanllawiau. Caiff rhagor o fanylion eu cynnwys yn y cynlluniau datblygu perthnasol.

Polisi neu bwnc canllaw

Gorchmynion Cyfreithiol

Gwirfoddoli

Cynnal y sefyllfa

Cynllunio

Gwryiadau

Llwybrau wedi'u hyrwyddo

Adran Gorfodi

Mynediad cyffredinol

Dylai'r weithdrefnau canlynol gael eu dilyn wrth ddatblygu pob polisi neu nodyn canllaw:

- Adolygu'r drefn gyfredol
- Casglu tystiolaeth ynglŷn ag arfer gorau (gan gynnwys trafod gyda'r Awdurdod Lleol, sefydliadau lleol, rhanddeiliaid lleol, awdurdodau lleol eraill)
- Dogfen ddrafft
- Ymgynghoriad mewnol, gan gynnwys ymgynghoriad cyfreithiol, a'i addasu yn ôl yr angen
- Ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol ac eraill yn ôl yr angen
- Addasu'r ddogfen yn ôl yr angen, cynnal ail ymgynghoriad er mwyn trafod unrhyw newid sylweddol
- Cymeradwyaeth aelodau'r cabinet

Unwaith i'r Polisi neu'r Nodyn Canllaw gael ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau, a bydd e'n 'ystyriaeth faterol' mewn perthynas ag achosion a gaiff eu dwyn gerbron yr Arolygiaeth Gynllunio.

Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf



5. Datganiad Gweithredu

Cyflwyniad

Mae Adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gynnwys Datganiad Gweithredu y mae'r awdurdod yn bwriadu ei roi ar waith er mwyn rheoli hawliau tramwy cyhoeddus, gan ddiwallu'r anghenion a datblygu'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad.

Mae'r dull gweithredu a gaiff ei roi ar waith yn yr adolygiad yma o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn debyg i'r camau gweithredu a gafodd eu rhoi ar waith ar gyfer y cynllun gwreiddiol. Mae e'n ystyried hawliau tramwy cyhoeddus a chyfleoedd eraill o ran mynediad (megis llwybrau tebyg, mynediad agored, parciau a safleoedd cefn gwlad allweddol) ac yn defnyddio nodau tebyg fel canolbwynt. Fel sydd wedi'i ddisgrifio yn adran 4.3 uchod, bydd camau gweithredu manwl yn cael eu nodi yn rhan o'r Cynllun Cyflawni blynyddol. Mae'r themâu blaenoriaeth ar gyfer pob amcan wedi'u nodi yma.

Amcan Un: Hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ar gyfer iechyd, adfywio, twristiaeth a hamdden

Mae nodau lleisiant a ffyrdd o weithio Cymru yn annog cyrff cyhoeddus i gydlynu eu polisïau a'u camau gweithredu er mwyn sicrhau nifer o fuddion ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr. Mae Cynllun Lles Cwm Taf yn canolbwyntio ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar leoliad, ac yn defnyddio asedau a chryfderau lleol i gefnogi ffyrdd newydd o weithio. Mae cefn gwlad wedi'i nodi'n ased pwysig ac mae'r ased yma'n aml iawn yn agos i le mae pobl yn byw. Mae modd iddo gyfrannu at fynd i'r afael â phroblemau amrywiol megis cydlyniant cymunedol, profiadau negyddol mewn plentynod¹, ansawdd yr aer, adfywio economaidd a balchder lleol. Roedd gwerth cefn gwlad Rhondda Cynon Taf fel ased wedi derbyn cefnogaeth lethol yn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft.

Mae'r amcan yma yn cefnogi camau gweithredu sy'n annog gweithgareddau awyr agored ac yn defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy, adnoddau mynediad agored a pharciau sy'n eiddo i'r Cyngor yn ogystal â Safleoedd Cefn Gwlad Allweddol. Roedd awgrymiadau o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd hefyd yn cynnwys diogelu a hyrwyddo bywyd gwyllt a threftadaeth.

Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

1.1 Iechyd	Mae modd i'r camau gweithredu o dan y thema yma gynnwys rhagnodi cymdeithasol ² ; ymgysylltu â chanolfannau a gafodd eu datblygu ar gyfer y Cynllun Lles; cerdded ar gyfer Grwpiau Iechyd; teithiau cerdded byr o amgylch meddygfeydd; syniadau penodol gan gymunedau lleol neu grwpiau gwirfoddol; gwaith ymarferol; hyrwyddo ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
1.2 Adnewyddu	Mae'r camau gweithredu o dan y thema yma yn canolbwyntio'n bennaf ar drigolion a busnesau lleol, ac mae modd iddyn nhw gynnwys llwybrau sy'n ymwneud â hanes a diwylliant lleol, llwybrau rhedeg neu gerdded yng nghefn gwlad, ap ar gyfer gwesty neu fusnesau ffitrwydd, mentrau mewn Parciau, cysylltiadau â chludiant cyhoeddus.
1.3 Twristiaeth	Er y bydd rhywfaint o orgyffwrdd â phwynt 1.2 uchod, mae'r camau gweithredu o dan y thema yma yn canolbwyntio'n bennaf ar ymwelwyr. Mae'r awyr agored yn rhan bwysig o'r 'arlwy' leol o ran twristiaeth, a bydd y camau gweithredu yn parhau i ddatblygu, marchnata a chynnal y gweithgareddau yma, megis Llwybr Taith Taf a'r Daith Gerdded o Amgylch Pontypridd, yn ogystal â datblygu cyfleoedd newydd. Mae gan yr adran Dwristiaeth 'strategaeth ddigidol' i hybu gwybodaeth ar-lein.

1.4 Gweithgareddau Hamdden	Mae modd i'r camau gweithredu o dan y cynllun yma gynnwys nifer o'r gweithgareddau traddodiadol y mae pobl yn eu gwneud yn y cefn gwlad, megis cerdded dan arweiniad, grwpiau cerdded a marchogaeth, mynd â chŵn am dro, ymweld â pharciau, treulio amser yn yr awyr agored fel teulu, a meysydd sy'n dod yn fwy poblogaidd fel beicio mynydd a rhedeg.
1.5 Addysg	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys teithiau cerdded bywyd gwyllt i ysgolion cynradd; gwaith prosiect parhaus gyda myfyrwyr Prifysgol De Cymru; 'milltir y dydd'; syniadau a gaiff eu datblygu gan ddisgyblion a'u hathrawon, hyfforddiant diogelwch ar feiciau a diogelwch y ffyrdd; chwarae drwy antur a gweithgareddau awyr agored.

Troednodiadau

¹ Mae modd i brofiadau negyddol mewn plentyndod effeithio ar gyfleoedd pobl mewn bywyd. Mae lleihau'r profiadau yma yn flaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd, yr Heddlu, y Cyngor Lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill

² Mae modd i ragnodi cymdeithasol fod yn therapi amgen neu therapi ychwanegol, mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau awyr agored fel cerdded

Amcan Dau: Cerdded a beicio fel opsiynau trafndiaeth

Mae cerdded a beicio fel dull trafndiaeth yn cyfrannu at amrywiaeth o agendâu polisi, gan gynnwys:

- newid yn yr hinsawdd (lleihau allyriadau carbon o drafndiaeth)
- gweithgarwch corfforol (er budd iechyd y cyhoedd)
- cynhwysiant ac adfywio cymdeithasol (mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau ar gyfer y rheiny sydd ddim yn berchen ar gar)
- symudedd annibynnol ar gyfer plant a phobl ifainc a rhai defnyddwyr anabl
- ansawdd yr amgylchedd lleol (llai o lygredd o ran yr aer a sŵn, coridorau gwyrdd)
- isadeiledd gwyrdd
- hybu twristiaeth

Fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r ddeddfwriaeth Teithio Llesol wedi gwella statws cerdded a beicio fel opsiynau trafndiaeth. Er bod y ddeddfwriaeth dim ond yn berthnasol mewn ardaloedd adeiledig, mae'r rhwydwaith cymunedol presennol (yn bennaf, rheilffyrdd sydd ddim yn cael eu defnyddio) a nifer o hawliau tramwy cyhoeddus y tu allan i'r ardal yn parhau i fod yn bwysig at ddibenion trafndiaeth. Yn gyffredinol, mae'r safonau enghreifftiol a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â llwybrau teithio Llesol yn fwy beichus na'r safonau ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus, a fyddan nhw ddim yn berthnasol ar gyfer llawer o lwybrau, yn enwedig yn y cefn gwlad.

Mae'r ymgynghoriad â'r cyhoedd mewn perthynas â'r Cynllun drafft yn awgrymu bod nifer o bobl o'r farn nad yw'r cynllun Teithio Llesol yn ymarferol ar eu cyfer nhw, er eu bod nhw'n cefnogi'r Cynllun. Cafodd pellter, tirwedd, cyfyngiadau amser a diffyg llwybrau addas eu nodi'n aml. Roedd diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a chysondeb a safon y llwybrau hefyd yn peri pryder. Bydd angen mynd i'r afael â'r materion yma yn rhan o'r themâu gweithredu isod. Roedd awgrymiadau cadarnhaol yn cynnwys hyrwyddo, llogi beiciau, mannau parcio ar gyfer beiciau, cyfleusterau yn y gweithle a chysylltiadau gwell â gwasanaethau trafndiaeth cyhoeddus.

Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

2.1 Mewnbyn strategol	Mae modd i'r camau gweithredu o dan y thema yma gynnwys mewnbynnu polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol, y Cynllun Trafndiaeth Lleol a'r rhwydwaith Teithio Llesol, blaenoriaethau lleol a safonau. Yn ogystal â hynny, mae modd iddi gynnwys gwaith rhanbarthol a mentrau sy'n croesi ffiniau.
2.2 Llwybrau cymunedol	Byddai'r camau gweithredu o dan y thema yma yn canolbwyntio ar lwybrau cymunedol sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â rhai newydd. Mae'r rhain yn cynnwys Llwybr Taith Taf, Llwybr Cwm Cynon, y Llwybr Celtaidd (Llwybr 4 a 47), Llwybr Cwm Rhondda Fach.



Amcan Tri: Diogelu'r adnodd mynediad

Nododd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf amrywiaeth o ddyletswyddau y mae rhaid i'r Awdurdod Priffyrdd eu gwneud er mwyn rheoli a diogelu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Mae'r dyletswyddau yma dal yn berthnasol ac mae'r amcan yma yn rhoi canolbwynt i bolisiau'r Cyngor mewn perthynas â'u rhoi ar waith.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf (2011) yn cynnwys polisiau i ddiogelu hawliau tramwy a mannau agored, yn ogystal â pholisiau mwy cyffredinol o ran cefn gwlad. Dylai unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygiadau newydd (boed hynny ar lefel ranbarthol/strategol neu leol) geisio sicrhau diogelwch yr adnodd mynediad.

Er mwyn rheoli'r rhwydwaith, rhaid gweithio gyda rheolwyr priffyrdd y Cyngor, swyddogion rheoli datblygu a swyddogion cyfreithiol, adran iechyd y cyhoedd a gofal y strydoedd a'r heddlu, yn ogystal â chynnal gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Roedd gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys gosod arwyddion, yn bryder penodol ar gyfer nifer o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Cynllun drafft. Mae'r gwaith diogelu hefyd yn ymwneud â materion megis gollwng sbwriel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae modd iddo niweidio'r adnodd a rhwystro defnyddwyr rhag manteisio arno. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau mewn perthynas â'r cynllun drafft. Doedd rhai ymatebwyr ddim yn fodlon gyda chyflawniad cyfredol y Cyngor, yn arbennig mewn perthynas â gwaith arferol. Yn benodol, cafodd pryderon ynghylch gwella gwybodaeth i'r cyhoedd a dulliau rhoi gwybod am broblemau eu codi. Mae testun ychwanegol wedi cael ei ychwanegu i Amcan Chwech er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma.

Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

3.1 Cynllunio strategol	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys mewnblynnu'r Cynllun Strategol newydd ar gyfer ardal Caerdydd; adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol; y Cynllun Trafnidiaeth Lleol; y polisi priffyrdd; y cynigion ar gyfer y system metro, gweithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos.
3.2 Ystad Llywodraeth Cymru sydd wedi'i choedwigo	Byddai'r camau gweithredu yn cynnwys parhau i roi pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gael gwared ar rwystrau o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar Goetir Llywodraeth Cymru a hyrwyddo'r defnydd o'r rhan fwyaf o'r ystad, sy'n ardal 'mynediad agored'. Mae modd cau llwybrau dros dro am resymau gweithredol drwy'r prosesau arferol.
3.3 Llwybrau coll	Yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, 2026 yw'r terfyn amser ar gyfer hawlio llwybrau sydd ddim wedi'u cofrestru'n Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y posibilrwydd o gael gwared ar y terfyn amser yma, ond dyw hi ddim yn glir p'un a fydd hyn yn digwydd ai peidio. Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau gweithredu yn ystod y cyfnod Cynllunio.
3.4 Gwaith arferol	Mae'r camau gweithredu o dan y cynllun yma yn cynnwys archwilio, gorfodi; newidiadau i'r rhwydwaith; cau'r safle dros dro; gwaith cynnal a chadw; rheoli safleoedd Cefn Gwlad Allweddol; rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio.
3.5 Croesfannau Rheilffordd	Bydd cynigion i gynyddu amllder y gwasanaethau trên a lleihau amser teithio ar hyd Llwybrau'r Cymoedd i Dreherbert, Aberdâr a Merthyr Tudful yn rhan o waith datblygu Metro De Cymru yn gofyn bod y cwmni trenau yn adolygu'r risgiau mewn perthynas â chroesfannau rheilffordd. Mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau gweithredu yn ystod y cyfnod Cynllunio.

Amcan Pedwar: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, pobl sy'n marchogaeth, cerbydau oddi ar y ffordd a defnyddwyr sydd ag anabledau o ran symud neu synhwyro

Mae gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n bodoli eisoes, yn arbennig o ran darparu cyfleusterau ychwanegol sy'n addas ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r ardal waith yn dibynnu'n helaeth ar gyllid allanol, yn enwedig am fod cyni cyllidol wedi golygu bod angen i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar wario arian ar gyfrifoldebau statudol. Mae rhai o'r cyfleusterau penodol sydd wedi'u nodi gan y cyhoedd yn rhan o'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Cynllun drafft dan bwysau, er enghraifft trafnidiaeth gyhoeddus a thoiledau.

Mae'n debygol y bydd y rhaglenni gwella yn cael eu cefnogi gan yr arianwyr allanol. Er enghraifft, mae'r ddeddfwriaeth Teithio Llesol yn debygol o sicrhau bod yr arian yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Cyngor mewn perthynas â llwybrau o fewn ardaloedd adeiledig. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd denu cyllid ar gyfer llwybrau cefn gwlad megis Llwybr Taith Taf.

Bydd chwilio am ffynonellau cyllid newydd ar gyfer blaenoriaethau gwella, er enghraifft, mewn perthynas â mentrau iechyd neu brosiectau cymunedol, yn dod yn fwy pwysig. Mater pwysig arall fydd manteisio ar gyfleoedd am gyllid mewn ardaloedd sydd ddim yn flaenoriaeth. Mae modd i hyn greu gwelliannau sydd o fudd i drigolion lleol ac ymwelwyr.

Roedd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd wedi cynnig ystod o flaenoriaethau ar gyfer gwella, gyda cherdded, beicio a mynediad i bawb ymhlith y syniadau mwyaf poblogaidd. Yn gyffredinol, cerbydau oddi ar y ffordd oedd y flaenoriaeth leiaf, ond roedd nifer o ymatebwyr wedi awgrymu cyfleuster penodedig ar eu cyfer nhw. Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl y dylai Amcan 3 (diogelu'r adnodd) gael ei flaenoriaethu'n fwy nag unrhyw welliant arall.

Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

4.1 Cyllid ar gyfer gwelliannau	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys datblygu partneriaethau; prosiectau ar y cyd; ceisiadau am grantiau; cytundebau S106 sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio.
4.2 Mynediad i bawb	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys gwelliannau teithio llesol sy'n creu cyfleoedd newydd ar gyfer defnyddwyr sydd â phroblemau symudedd neu synhwyrol; gosod clwydi yn lle camfeydd; cymorth i ddefnyddwyr newydd.
4.3 Delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys atal gwastraff a thaflu sbwriel; lleihau nifer y defnyddwyr beiciau modur sy'n tresmasu; mynd i'r afael â baw cŵn; cefnogi mentrau cymunedol lleol: hyrwyddo balchder lleol.
4.4 Llwybrau goddefol	Mae llwybrau goddefol yn werthfawr o ran sicrhau mynediad ychwanegol a gwella diogelwch ac atyniad y rhwydwaith hawliau tramwy cyfredol. Bydd camau gweithredu'r cynllun yma'n dibynnu ar gyllid ac yn cael eu llywio gan flaenoriaethau'r Adran Twristiaeth, lechyd ac ati.





Amcan Pump: Cynnwys y gymuned leol a sefydliadau gwirfoddol yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd, eu hybu a sicrhau mynediad iddyn nhw

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfranogiad ar lawr gwlad, a chafodd yr amcan yma ei ddefnyddio i hyrwyddo camau gweithredu a oedd yn cael eu hybu gan grwpiau defnyddwyr; Cymunedau yn Gyntaf ac amrywiaeth o grwpiau cymunedol a gwirfoddol lleol. Er bod llawer o'r sefydliadau wedi newid yn ystod y cyfnod yma, mae pwysigrwydd y trydydd sector ¹ mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored yn dal i fod yn allweddol. Mae cyfranogi yn un o'r pum dull o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae gweithio gyda phobl sy'n defnyddio cefn gwlad yn rhoi safbwynt pwysig ichi. Yn yr un modd, mae modd i'r sawl sydd ddim yn defnyddio cefn gwlad ddatgelu'r hyn sy'n eu hatal nhw rhag gwneud hynny, yn ogystal â nodi'u dyheadau. Nododd yr Asesiad Lles fod gan nifer helaeth o bobl ddiddordeb yn y cefn gwlad ac mewn gweithgareddau awyr agored, yn ogystal â thynnu sylw at nifer o bryderon penodol (mae'r enghreifftiau isod).

- Nododd y bobl ifanc eu pryderon ynglŷn â'r diffyg yn y gweithgareddau awyr agored heriol y mae modd cymryd rhan ynddyn nhw,
- Roedd rhai grwpiau lleol yn awyddus i chwarae rhan fwy yn y gwaith o ddefnyddio a rheoli'r tir yn eu hardal nhw sy'n eiddo i'r cyngor,
- Roedd rhai unigolion eisiau rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r lleoedd y mae modd iddyn nhw fynd iddyn nhw,
- Cafodd sefydliadau lleol eu ffurfio o amgylch y cynigion i ddatblygu cyfleusterau penodol,
- Yn fwy diweddar, nododd menter ragnodi leol fod gweithgareddau awyr agored yn faes lle mae galw mawr, a lle mae'r ddarpariaeth "lefel mynediad" neu'r rheiny sydd angen cymorth.

Mae'r Cynllun Lles yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â 'pharthau cymunedol', a hybiau Cymunedol, y mae modd iddyn nhw ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a allai gael eu defnyddio i gyflawni'r amcan yma. Mae e hefyd yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â gwirfoddoli, y mae modd iddyn nhw gefnogi agenda ymgysylltu ehangach.

Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn parhau i sicrhau bod grwpiau defnyddwyr, perchnogion tir a phartion eraill sydd â diddordeb yn y mater yn mewnbynnu'r agenda o ran cyfleoedd hamdden a mynediad lleol.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd mewn perthynas â'r Cynllun drafft yn cefnogi'r amcan yma ac roedd nifer o bobl wedi cynnig cymorth. Mae cyflawni gwaith dilynol mewn perthynas â'r rhain yn flaenoriaeth. Roedd awgrymiadau'n cynnwys defnyddio grwpiau, clybiau a chynghorau cymuned lleol, gan annog balchder lleol a defnyddio gwybodaeth leol a dysgu o ardaloedd eraill. Mae eraill yn cyfeirio at amseru (o gwmpas y gwaith), hyrwyddo, darparu cymorth priodol ar gyfer gwirfoddolwyr, gan sicrhau nad yw'r Cyngor yn trosglwyddo'i gyfrifoldebau a'i ddyletswyddau a darparu hyblygrwydd i alluogi unigolion a theuluoedd, yn ogystal â grwpiau, i gymryd rhan.

Bydd y camau gweithredu yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

5.1 Fforwm Mynediad Lleol	Bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn darparu'r mecanwaith statudol sy'n galluogi defnyddwyr a pherchnogion tir i gyfrannu at bolisiau, blaenoriaethau a chamau gweithredu sy'n ymwneud a hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Mae pob Fforwm Mynediad Lleol yn para am dymor o 3 mlynedd. Ar ôl hynny, caiff Fforwm Mynediad Lleol newydd ei benodi.
5.2 Creu eich Gofod	Mae'r thema yma yn canolbwyntio ar y ddwy raglen gymunedol, fydd yn para 7 mlynedd, a gaiff eu hariannu gan y loteri, ac sydd wedi'u lleoli yn Nhreherbert (Croeso i'n Coedwig/Welcome to our Woods) ac yn Ynys-y-bŵl (Ynysybwll Vision) sy'n datblygu dulliau newydd o ymwneud ag ardaloedd cefn gwlad lleol.

5.3 Cyfranogiad gwirfoddol a chymunedol	Mae'r thema yma yn ffocws ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol eraill, neu sydd wedi'u datblygu ar y cyd â'r sefydliadau hynny. Mae modd i hyn gynnwys meithrin cydberthnasau â chanolfannau'r Cynllun Lles er mwyn deall eu dyheadau ar gyfer ardaloedd cefn gwlad lleol a hawliau tramwy; llunio polisi gwirfoddoli mewn cydweithrediad ag Interlink.
5.4 Mabwysiadu Llwybr	Bydd y thema yma'n sicrhau bod camau gweithredu i gefnogi a hyrwyddo'r cynllun 'mabwysiadu llwybr' yn cael eu cyflawni, yn ogystal â datblygu mentrau tebyg gyda Cherddwyr Taf-Elái, sydd wedi mabwysiadu'r Daith Gerdded o Amgylch Pontypridd.
5.5 Cynghorau cymuned	Mae'r thema yma'n cynnwys camau gweithredu a gaiff eu hybu neu'u datblygu gan Gyngorau Cymuned, ac yn cynnwys y cytundebau asiantaeth y mae rhai Cynghorau a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ymrwymo iddyn nhw.

Troednodyn

¹trydydd sector = yr economi gymdeithasol

Amcan Chwec: Datblygu system rheoli fwy effeithlon ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy, gan gynnwys y Map Diffiniol

Er y cafodd cynnydd gwy ei wneud yn y maes yma dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae rhagor o waith i'w wneud. Mae'r pwysau o ran cyni cyllidol wedi arafu'r cynnydd disgwylidig o ran diweddaru'r Map Diffiniol. Serch hynny, mae cwblhau'r gwaith yma yn dal i fod yn flaenoriaeth, er ei fod yn dibynnu ar gyllid allanol (gan Lywodraeth Cymru) ar hyn o bryd. Mae datblygiadau technolegol yn parhau i gynnig cyfleoedd am effeithlonrwydd mewn perthynas â systemau rheoli a gwella gwasanaethau. Fel arfer, rhaid talu ymlaen llaw am y datblygiadau yma, neu dalu amdany'n nhw bob blwyddyn.

Mae'r ymgynghoriad â'r cyhoedd mewn perthynas â'r Cynllun drafft yn awgrymu bod angen gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r cyhoedd a sut mae'r gwybodaeth hynny'n cael ei hyrwyddo. Yn benodol, o ran sut mae rhoi gwybod am broblemau mewn perthynas â'r rhwydwaith Hawliau Tramwy.

6.1 Map Diffiniol	Bydd y camau gweithredu o dan y thema yma'n canolbwyntio ar orffen diweddaru Map Diffiniol Taf-Elái a'r datganiad, cyn symud ymlaen at Gwm Rhondda a Chwm Cynon.
6.2 Polisi a chanllawiau	Bydd y camau gweithredu o dan y thema yma'n cynnwys yr adolygiad yn ogystal â datblygu amrywiaeth o nodiadau polisi a chanllawiau yn unol â'r amlinellid ym mharagraff 4.4 uchod.
6.3 Protocolau ar gyfer tasgau arferol	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys ffurflenni ar gyfer ymatebion i geisiadau cynllunio ac archwiliadau tir, ar gyfer arolygon ac archwiliadau; llythyrau safonol; cofnodi gwaith ymarferol.
6.4 CAMS a mathau eraill o gymorth technolegol	Mae modd i gamau gweithredu o dan y thema yma gynnwys caledwedd, meddalwedd, hyfforddiant, ychwanegu haenau megis y rhwydwaith teithio llesol a llwybrau goddefol; gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol (dwyieithog).

6. Cynlluniau Cyflawni

Caiff Cynlluniau Cyflawni Blyneddol sydd ddim yn rhai statudol eu cynnig er mwyn rhoi manylion ynglŷn â'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd bob blwyddyn. Bydd y Cynllun Cyflawni cyntaf ar gyfer 2019/20 yn cael ei gyhoeddi ar ffurf Atodiad i'r Cynllun hwn yn ei dro. Bydd cynnwys y cynlluniau cyflawni yn cael eu llywio gan yr amcanion sydd wedi'u hamlinellu yn Adran Pump y Datganiad Gweithredu, uchod, yn ogystal â'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys staff, cyllid cyfalaf a reffeniw, cymorth grantiau, cymorth gwirfoddol a chymunedol.

Bydd gan y Fforwm Mynediad Lleol rôl mewn perthynas â phennu cynnwys y Cynllun Cyflawni. Serch hynny, yr Awdurdod Lleol fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am y mater.


7. Monitro, Adrodd a Chynllunio'r Adolygiad

Bydd y gwaith mewnol o fonitro'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy bob chwarter yn parhau i fynd rhagddo, a bydd e'n ystyried y Datganiad Gweithredu cyffredinol (adran 5 uchod) yn ogystal â manylion y Cynllun Cyflawni blyneddol. Bob blwyddyn, bydd y Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn adroddiad o'r cynnydd yn erbyn pob amcan.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gofyn am gynnal cyfres arall o asesiadau, yn ogystal ag adolygiad posibl o fewn deng mlynedd (2028/9).

Atodiad Un

Amserlen



Rhestr Ymgynghori

Cynghorau Cymuned

Cyngor Cymuned Ynys-y-bŵl a Choed-y-Cwm,
Cyngor Cymuned y Rhigos
Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn
Cyngor Tref Pontypridd
Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref
Cyngor Cymuned Llantrisant
Cyngor Cymuned Llanharan
Cyngor Cymuned Llanhari
Cyngor Cymuned Tonyrefail
Cyngor Cymuned y Gilfach-goch
Cyngor Cymuned Pont-y-clun,
Cyngor Cymuned Ffynnon Taf

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

Gogledd Aberaman, Linda Marty DeVet
Gogledd Aberaman, Sheryl Evans
De Aberaman, Anita Calvert
De Aberaman, Tina Williams
Abercynon, Elaine George
Dwyrain Aberdâr, Steven A Bradwick
Dwyrain Aberdâr, Michael Forey
Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Gareth Jones
Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Sharon Rees

Beddau, Richard Yeo
Brynna, Roger K. Turner
Pentre'r Eglwys, Graham Stacey
Cilfynydd, Stephen Belzak
Cwm-bach, Jeffrey Elliot
Y Cymer, Margaret Tegg
Y Cymer, Gareth Caple
Glynrhedynog, Susan Morgans
Glynrhedynog, Philip Howe
Y Gilfach-goch, Aurfron Roberts
Glyn-coch, Doug H. Williams
Y Graig, Jayne Brencher
Y Ddraenen Wen, Martin Fidler Jones
Hirwaun, Karen Morgan
Llanhari, Wayne Owen
Tref Llantrisant, Glynne Holmes
Llanilltud Faerdref, Mike Diamond
Llanilltud Faerdref, Joel S. James
Llwynypïa, Wendy Lewis
Y Maerdy, Jack Harries
Dwyrain Abergennar, Pauline Jarman
Gorllewin Abergennar, Wendy Treeby
Penrhiw-ceibr, Adam S. Fox





Penrhiw-ceibr, Gavin D G Williams
Pentre, Shelley Rees-Owen
Pentre, Maureen Weaver
Pen-y-graig, John L Cullwick
Pen-y-graig, Joshua R Davies
Pen-y-waun, Helen Boggis
Pont-y-clun, Kate L Jones
Pont-y-clun, Margaret Griffiths
Tref Pontypridd, Heledd Fychan
Y Porth, Julie Williams
Y Porth, Alun G. Cox
Y Rhigos, Graham Philip Thomas
Rhondda, Robert W. Smith
Ffynnon Taf, Jill Bonetto
Tonysguboriau, Steven M Powell
Ton-teg, Lewis Hooper
Ton-teg, Lyndon Walker
Tonypany, Gareth Wyn Hughes
Dwyrain Tonyrefail, Danny Grehan
Dwyrain Tonyrefail, Dan Owen-Jones
Gorllewin Tonyrefail, Alexandra Davies-Jones
Trallwng, Michael J. Powell
Trefforest, Steve Powderhill
Treherbert, Geraint R. Davies
Treherbert, Will Jones
Treorci, Alison Chapman
Treorci, Sêra M. Evans-Fear
Treorci, Emyr John Webster
Tylorstown, Mark Adams
Ty'n-y-nant, Clayton J. Willis
Ynys-hir, Darren Macey
Ynys-y-bwl, Sue Pickering
Ystradyfodwg, Lorraine Jones
Ystrad, Elyn Stephens

Awdurdodau cyfagos

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Dinas Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys

Sefydliadau eraill

Tîm Gweithredu Abercynon
Cymdeithas Busnes a Thwristiaeth Aberdâr
Gweithredu dros Hirwaun
Cymdeithas Pysgota (Bargod Taf)
Y Ffatri Gelf
Cynulliad Siroedd Cymru
Undeb Auto-Cycle
Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon
Cymdeithas Cominwyr a Brinker Caerffili
Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
Cymdeithas Ceffylau Prydain

Ffederasiwn Beicio Mynydd Prydain
Cyngor Mynydda Prydain
Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain
Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
Bruton Knowles (Syrfewyr Siartredig)
Cymdeithas Pysgota Bryncynon (Cyfeillion Afon Taf)
Strategaeth Bryncynon (Cwm Gwyrdd)
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau CADW
Cadw Henebion Cymru
Llyn Cambrian -
Ysgrifennydd Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
The Camping and Caravanning Club
Gwirfoddolwyr Cadwraeth Caerdydd
Ymgrych Beicio Caerdydd
Cymdeithas Genweiriol Cascade (F.O.R.T)
CLA Cymru
Cymdeithas Lles Cefnpennar
Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo
Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Canolfan Addysg yn y Gymuned (Blaen-gwawr)
Gwirfoddolwyr Gwasanaethau Cymunedol Cymru
Cyngor y Parciau Cenedlaethol
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cymdeithas y Tirfeddianwyr
Cymdeithas Rheoli Cefn Gwlad
Grŵp Cymunedol Gofal Afonydd Cwm-parc
Cymdeithas Cymuned Cwm-parc
Diwylliant Cynon – Addysg yn y Gymuned
Cerddwyr Cwm Cynon
Amgueddfa Cwm Cynon
Canolfan Gymuned Dai Davies
Canolfan Farchogaeth Cwm Dâr
Canolfan Awyr Agored Daerwynno
Anabledd Cymru
Dŵr Cymru
Ymddiriedolaeth Ddatblygu Glynebwy a'r Cylch
Undeb Amaethwyr Cymru
Grŵp Cyngori ar Ffermio a Bywyd Gwylt
Sefydliad y Merched, Glynrhedynog a'r Cylch
Grŵp Cadwraeth Hen Lofa Fernhill (Cwm Rhondda)
Cyngor Astudiaethau Maes
Menter Coedwigaeth Cymru
Cyfeillion Parc Aberdâr
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg–Gwent
Grŵp Moch Daear Morgannwg
Grŵp Ystlumod Morgannwg (dwyrain)
Clwb Adar Morgannwg
Ffederasiwn Sefydliad y Merched, Morgannwg
Clwb Ffermwyr Ifanc Gelligaer
Clwb Ffermwyr Ifanc Penrhyn Gŵyr
Clwb Ffermwyr Ifanc Llantrisant

Llwybrau'r Fro Dau: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Rhondda Cynon Taf

Clwb Ffermwyr Ifanc y Maendy
 Clwb Ffermwyr Ifanc Castell-nedd
 Clwb Ffermwyr Ifanc y Wig
 Grŵp Ffyngau Morgannwg
 Cenhadaeth Morgannwg i'r Byddar
 Grŵp Cofnodi Gwyfynod Morgannwg
 Prosiect Green Days
 Groundwork Cymru
 YMCA Hirwaun
 Interlink Rhondda Cynon Taf
 Cadwch Gymru'n Daclus
 Cymdeithas Mynediad Tir a Hamdden
 Cynllun Datblygu Cymuned Llanharan
 Grŵp Gofal Afonydd Canol Rhondda Fach
 (Cyfeillion Afon Taf)
 Grŵp Gofal Afonydd Aberpennar
 YMCA Aberpennar
 Tir Sefydliadau Moduro
 Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd
 Cyngor Cenedlaethol Carafanau
 Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol
 Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 Parciau Cenedlaethol Cymru
 Cyfoeth Naturiol Cymru
 Cymdeithas Mannau Agored
 Cymdeithas Pysgota â Phlu Osprey (Cyfeillion
 Afon Taf)
 Cymdeithas Cerddwyr
 Ymddiriedolaeth Pen y Rhondda
 Penywaun Riverfield Group (Cyfeillion Afon Taf)
 Grŵp Cadwraeth Camlas Pontypridd
 Canolfan Hanesyddol a Diwylliannol Pontypridd
 Clwb Merlod – Canolfan Farchogaeth Cantref
 Clwb Merlod – Canolfan Farchogaeth Caerdydd
 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Amy Lewis
 Cerddwyr Cymru
 Cylch Materion Hygyrchedd Rhondda Cynon Taf
 Cyngor Sgowntiaid Dosbarth Rhondda Cynon Taf
 Cymdeithas Ddinesig Cwm Rhondda
 Mencap Cwm Rhondda (Mencap Cymru)
 Gofal Afonydd
 Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
 Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
 S A F E
 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
 Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored
 De Cymru
 Cynllun Cofnodi Corynnod
 Cyngor Chwaraeon Cymru
 Sustrans
 Cylch Trafod i Bobl dros 50 oed Taf–Elái
 Cerddwyr Taf–Elái
 Gardd Gymunedol Ffynnon Taf a Nantgarw
 Tanglewood
 Partneriaeth Fern
 Cylch Trafod i Bobl Hŷn
 Grŵp Garddio Treherbert

Grŵp Timber Growers United
 Cymdeithas Cynghorau Cymuned Cymru
 Bwrdd Croeso Cymru
 Cyswllt Amgylchedd Cymru
 Undeb Beicio Cymru
 Cymdeithas Cyfeiriannu Cymru
 Cymdeithas Beicwyr Gwlad Cymru
 Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
 WWF Cymru
 Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bŵl
 Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid (Cymru a
 Lloegr)
 Yr Urdd

Aelodau o'r Cabinet

Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cabinet,
 Andrew Morgan
 Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar
 faterion Busnes y Cyngor, Maureen Webber
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu
 Gydol Oes, Joy Rosser
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau
 Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol,
 Rhys Lewis
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc,
 Christina Leyshon
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a
 Thai, Robert Bevan
 Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd,
 Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Ann
 Crimmings
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau
 Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg, Geraint E
 Hopkins
 Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau
 Corfforaethol, Mark A Norris

Aelodau Cynulliad – Rhanbarthol

David Melding AC – Canol De Cymru
 (Ceidwadwyr)
 Gareth Bennett AC – Canol De Cymru (Plaid
 Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP))
 Neil McEvoy, Canol De Cymru (Annibynnol)
 Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
 (Ceidwadwyr)
 Mick Antoniw, Pontypridd (Y Blaid Lafur)
 Vikki Howells, Cwm Cynon (Y Blaid Lafur)
 Leanne Wood, Cwm Rhondda (Plaid Cymru)



Atodiad Dau: Newidiadau sylweddol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf

Cafodd y cynllun Llwybrau'r Fro cyntaf ei gyhoeddi yn dilyn proses a wnaeth ymestyn dros dair blynedd ac oedd yn cynnwys ymgynghoriadau ar y Papur Materion, yr Asesiad a'r Cynllun Drafft cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol. O ganlyniad i hyn, cafodd Llwybrau'r Fro ei lunio yn seiliedig ar nifer helaeth o wybodaeth a thystiolaeth a gafodd ei chasglu ynglŷn â mynediad i gefn gwlad a chyfleoedd mewn perthynas â chefn gwlad yn Rhondda Cynon Taf. Doedd y pethau yma erioed wedi'u casglu at ei gilydd o'r blaen. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Adolygu'r Cynllun yn gosod llinell amser fyrrach ac yn canolbwyntio ar feysydd sydd angen newid. Nod yr Asesiad (2017) oedd nodi'r meysydd yma.

Caiff y newidiadau sylweddol yn fframwaith polisïau Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u nodi yn y Canllawiau, eu hadlewyrchu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd. Dydy strategaeth 'Dringo'n Uwch' Llywodraeth Cymru, a gafodd ei defnyddio i sefydlu dangosyddion monitro ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy cyntaf, ddim yn berthnasol mwyach. Mae'r gofynion deddfwriaethol newydd wedi'u bodloni.

Mae'r Cynllun newydd yn adlewyrchu'r newidiadau i bolisïau a strwythurau o fewn Rhondda Cynon Taf, mewn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ac mewn cyrff statudol. Mae unrhyw broblemau a gafodd eu nodi yn ystod yr adolygiad o fframwaith y polisi wedi'u hystyried yn rhan o'r Cynllun.

Mae'r Asesiad (2017) wedi ystyried newidiadau yn anghenion defnyddwyr gwahanol yn ogystal â'r defnydd, y galw a'r rhesymau dros ddarparu mynediad, yn ogystal â nodi anghenion y cyhoedd ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal â hynny, ystyriodd yr Asesiad yr hyn a gafodd ei gyflawni gan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a pherthnasedd parhaus yr amcanion gwreiddiol. Mae'r amcanion yn y Datganiad Gweithredu newydd wedi aros yr un fath yn gyffredinol. Serch hynny, mae camau gweithredu manwl wedi'u disodli gan themâu blaenoriaeth eang sydd wedi'u nodi. Caiff camau gweithredu manwl eu cynnwys yn y cynllun cyflawni anstatudol blynyddol.

Atodiad Tri: Map o'r ardal sy'n cael ei chynnwys yn y Cynllun

